
Diweddariad Cysylltu'r Gwledydd

Gwanwyn 2021

ADRODDIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 12 Mai 2021

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	1
2. Paneli rheoli	5

1. Trosolwg

Dyma'r diweddariad dros dro cyntaf i'n hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd cyntaf ym mis Rhagfyr 2020. Mae'n seiliedig ar ddarpariaeth symudol ac argaeledd band eang sefydlog ar draws y DU ym mis Ionawr 2021, pan oedd y DU yn parhau i ddelio ag effaith pandemig y coronafeirws.

Canfyddiadau Allweddol

Mae **nifer y cartrefi a all dderbyn band eang cyfradd gigadid i fyny** i dros 10.8 miliwn o gartrefi (37%), sef cynnydd o 7.9 miliwn (27%) ers ein diweddariad diwethaf.

Mae **darpariaeth ffeibr llawn yn parhau i gynyddu'n gyflym, i fyny i 21%** o 18% yn y pedwar mis rhwng mis Medi 2020 a mis Ionawr 2021, gan roi darpariaeth i ychydig o dan chwe miliwn o gartrefi.

Mae **darpariaeth band eang cyflym iawn a gwibgyswllt yn parhau i ehangu ar draws y DU**, ond i raddau llai, gyda darpariaeth band eang cyflym iawn yn aros ar 96%, a band eang gwibgyswllt yn codi i 61% (o 59% ym mis Medi).

Mae **darpariaeth symudol yn parhau'n sefydlog** ond mae'r gweithredwyr symudol bellach wedi dechrau cyflwyno darpariaeth mewn ardaloedd newydd trwy'r cynllun **Rhwydwaith Gwledig a Rennir**, y cytunwyd arno gyda Llywodraeth y DU yn 2020. O ganlyniad, disgwylir i'r ddarpariaeth ar draws y DU gynyddu dros y blynyddoedd i ddod.

Fel yn y diweddariadau blaenorol rydym yn cyhoeddi [[panel rheoli](#) a [siart ryngweithiol](#)] gyda'r adroddiad hwn sy'n cynnwys y data diweddaraf a hanesyddol.

Mae'r data o'r diweddariad hwn wedi cael ei ddefnyddio i ddiweddarau ein [gwefan gwirio darpariaeth](#) hefyd. (newidiwch i Gymraeg).

Canfyddiadau allweddol - Band Eang Sefydlog

Band eang cyfradd gigadid: mae argaeledd band eang a all ddarparu cyflymder Gigadid¹ i ddefnyddwyr yn parhau i wella'n gyflym, gyda bron 11 miliwn o gartrefi'r DU² (37%) bellach yn gallu cyrchu'r fath gyflymder, cynnydd o 7.9 miliwn o gartrefi (27%) ym mis Medi 2020. Mae'r cynnydd hwn wedi cael ei symbylu'n bennaf gan gyflwyniad parhaus technoleg DOCSIS 3.1 Virgin Media i 2.8 miliwn o gartrefi ychwanegol, yn ogystal â chwmnïau sy'n estyn eu rhwydweithiau ffeibr llawn.

Gosodiadau ffeibr llawn: Mae darpariaeth ffeibr llawn bellach wedi cyrraedd ychydig yn llai na chwe miliwn o gartrefi (921%), i fyny o'r 5.1 miliwn (18%) a adroddwyd yn ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd llawn ar ddarpariaeth ym mis Medi 2020. Gyrrir hyn yn bennaf gan osodiadau'r gweithredwyr seilwaith ffeibr mawr ond mae wedi'i gefnogi gan nifer cynyddol o ddarparwyr llai ar draws y DU sy'n gwasanaethu cymunedau a rhanbarthau unigol.

¹Mae rhwydweithiau cyfradd Gigadid yn cynnwys rhwydweithiau ffeibr llawn yn ogystal ag unrhyw rwydwaith a all gynnig cyflymder lawrlwytho o 1Gdid yr eiliad o leiaf (fel fersiwn diweddaraf y dechnoleg rhwydweithiau cebl – DOCSIS 3.1)

²Noder ein bod yn adrodd am eiddo preswyl (cartrefi) o ran darpariaeth ffeibr llawn, gwibgyswllt a chyflym iawn, ond am eiddo preswyl a masnachol ar gyfer band eang 'digonol'

Band eang gwibgyswllt (cyflymder lawrlwytho o 300 Mdid yr eiliad o leiaf³): mae band eang gwibgyswllt ar gael i hanner miliwn o gartrefi ychwanegol ac yn awr yn cyrraedd 17.7 miliwn o gartrefi (61%). Mae hyn wedi'i yrru'n bennaf gan estyniadau i rwydwaith cebl Virgin Media, yn ogystal â gosodiadau ffeibr gan Openreach a gweithredwyr ffeibr llawn eraill. Mewn rhai ardaloedd trefol yn bennaf, mae rhwydweithiau ffeibr newydd yn cael eu gosod mewn ardaloedd sydd â darpariaeth gwibgyswllt eisoes, ac felly nid yw'r cynnydd mewn argaeledd ffeibr llawn o reidrwydd yn arwain at gynnydd cyfatebol mewn darpariaeth gwibgyswllt.

Band eang cyflym iawn (cyflymder lawrlwytho o 30 Mdid yr eiliad o leiaf): mae band eang cyflym iawn yn parhau i gael ei gyflwyno ar draws y DU, gan gyrraedd 65,000 o anheddau ychwanegol ers ein hadroddiad diwethaf, er bod y ddarpariaeth yn aros ar 96% o gartrefi.

Band eang digonol (10 Mdid yr eilad i lawr ac 1 Mdid yr eiliad i fyny): Erbyn hyn gall y mwyafrif helaeth o safleoedd yn y DU gyrchu band eang digonol. Nifer y safleoedd (preswyl a masnachol) na allant dderbyn gwasanaeth band eang digonol o linell sefydlog yw 650,000 (sef ychydig dros 2% o hyd)⁴. Mae'r nifer hwn wedi newid o ganlyniad i newid yn y ffordd yr ydym yn mesur argaeledd band eang ar yr holl safleoedd sydd ag eiddo lluosog e.e. blociau fflatiau a chanolfannau siopa.

Fel a nodwyd yn ein hadroddiad ym mis Rhagfyr, rydym yn disgwyl y bydd argaeledd cynyddol Mynediad Diwifr Sefydlog yn gostwng ymhellach nifer y safleoedd na allant gael cysylltiad band eang digonol. Bryd hynny, amcangyfrifwyd mai nifer y safleoedd na allent gael band eang digonol, hyd yn oed gan gynnwys rhwydweithiau mynediad diwifr sefydlog, oedd tua 189,000. Rydym wrthi'n cywain gwybodaeth wedi'i diweddarau am ddarpariaeth gan y rhwydweithiau mynediad diwifr sefydlog a byddwn yn adrodd ar hyn mewn adroddiad dilynol.

Mae'r ffigurau uchod yn dangos argaeledd gwasanaethau band eang ar draws y DU; byddwn yn adrodd ar y defnydd o wasanaethau band eang yn fanylach yn ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd blyneddol ym mis Rhagfyr 2021.

Datblygiadau sy'n cefnogi buddsoddi mewn rhwydweithiau band eang

Ym mis Mawrth 2021 cyhoeddodd Ofcom ei hadolygiad o Delathrebu Sefydlog Cyfanwerthol,⁵ sy'n nodi nifer o fesurau i ysgogi buddsoddi mewn seilwaith rhwydweithiau - gan ddarparu sicrwydd rheoleiddio a chaniatáu i gwmnïau wneud elw teg ac ar yr un pryd sicrhau bod defnyddwyr yn parhau i fod â mynediad i fand eang fforddiadwy wrth i rwydweithiau newydd gael eu cyflwyno.

³ Gellir cyflwyno band eang gwibgyswllt trwy amrywiaeth o dechnolegau megis G.Fast, DOCSIS (Cebl) a ffeibr llawn.

⁴ Yn ein hadroddiad diwethaf, nodwyd mai 583,000 oedd nifer y safleoedd na allent dderbyn cysylltiad band eang 'digonol' trwy linell sefydlog. Roedd y ffigur hwn yn cynnwys tua 100,000 o safleoedd nad oes gennym ddata darpariaeth ar eu cyfer gan y gweithredwyr ond a oedd yn gysylltiedig yn agos â safleoedd gerllaw, felly bu i ni gynnwys y safleoedd hyn yn ochelgar yn ein ffigurau. Ers hynny rydym wedi mireinio'r ffordd y mae'r safleoedd hyn yn cael eu nodi a'u 'paru â chyfeiriad' i ddata gweithredwyr i ddarparu data amcangyfrif cyflymder manylach gywir ar gyfer fflatiau unigol ac anheddau tebyg. Trwy wneud hyn, mae nifer y safleoedd nad oes gennym ddata gweithredwyr ar eu cyfer yn codi, gan arwain at y ffigur uwch a roddir yma. O ystyried lleoliad daearyddol yr adeiladau hyn, nid ydym yn disgwyl bod nifer y safleoedd na allant gael cysylltiad band eang digonol ac sy'n gymwys ar gyfer y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol (USO) band eang wedi newid, oherwydd mynediad diwifr sefydlog gan rwydweithiau symudol.

⁵ [Datganiad: Hybu buddsoddi a chystadleuaeth mewn rhwydweithiau ffeibr: Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Cyfanwerthol 2021-2026 - Ofcom](#)

DU: Ar 19 Mawrth cyhoeddodd Llywodraeth y DU "Project Gigabit"⁶; cronfa £5bn y prosiect seilwaith i gefnogi cyflwyno band eang cyfradd gigadid i gartrefi a safleoedd mewn lleoedd anodd eu cyrraedd. Cyhoeddwyd yr ardaloedd cyntaf i elwa o'r cyllid, a rhyddhawyd gwerth £210miliwn ychwanegol o dalebau gigadid.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y cysylltwyd bron 500,000 o safleoedd ar draws y DU â band eang cyfradd gigadid ers haf 2018 o ganlyniad i ymrwymiad cyllid gan lywodraeth gwerth £1 biliwn sy'n parhau tan ddiwedd 2021.

Yr Alban: Cyhoeddodd Llywodraeth Yr Alban strategaeth Ddigidol newydd ac adroddiad⁷ Canolfannau Data gwyrdd⁸ i gefnogi ailsefydlu yn sgil y pandemig. Mae'r rhaglenni presennol, gan gynnwys Reaching 100% (R100) a Scottish 4G Infill (S4GI), yn parhau i gyflwyno buddion.

Cymru: Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i ddarparu cyllid ategol⁹, trwy gynllun talebau newydd, ar gyfer yr anheddau gwledig hynny sy'n gymwys o dan gynllun Band Eang Cyfradd Gigadid Llywodraeth y DU. At hynny, mae Allwedd Band Eang Cymru¹⁰ yn darparu cyllid a grantiau ar gyfer pob annedd i ddyblu cyflymder band eang.

Gogledd Iwerddon: Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r anheddau cyntaf i gael cysylltiad ffeibr llawn fel rhan o Project Stratum, rhaglen buddsoddi mewn band eang gwerth £165miliwn, bellach yn cael eu cysylltu¹¹.

Mae Virgin Media wedi uwchraddio eu rhwydwaith yng Ngogledd Iwerddon, gan roi hwb pellach i argaeledd band eang cyfradd gigadid. Erbyn hyn gall rhwydwaith y gweithredwr o bron 400,000 o gartrefi ar draws y rhanbarth dderbyn band eang Gig 1 Virgin Media sy'n cynnig cyflymder lawrlwytho cyfartalog o 1,140 Mdid yr eiliad¹².

Cyhoeddodd Openreach yn ddiweddar y bydd yn ychwanegu 100,000 o anheddau pellach at ei rhwydwaith ffeibr llawn yng Ngogledd Iwerddon dros y 12 mis nesaf¹³.

Canfyddiadau allweddol - Symudol

Rydym yn mesur darpariaeth symudol mewn ffordd sy'n adlewyrchu profiad tebygol pobl wrth ddefnyddio eu ffonau symudol.¹⁴ Ni fu cynnydd sylweddol mewn darpariaeth ers ein hadroddiad diwethaf, ond rydym yn disgwyl y bydd y Rhwydwaith Gwledig a Rennir, y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth y DU a'r diwydiant yn 2020, yn gyrru gwelliannau mewn darpariaeth ymlaen dros y blynyddoedd i ddod.

4G: Nid yw darpariaeth ar ffurf rhwydweithiau symudol 4G ar draws y DU wedi gweld newidiadau sylweddol dros y cyfnodau adrodd diwethaf. Mae gan fwy na 91% o fàs tir y DU ddarpariaeth 4G da

⁶ [Government launches new £5bn 'Project Gigabit' - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/news/government-launches-new-5bn-project-gigabit)

⁷ [Digital - gov.scot \(www.gov.scot\)](https://www.gov.scot/news/digital-governance)

⁸ [Green datacentres and digital connectivity: vision and action plan for Scotland - gov.scot \(www.gov.scot\)](https://www.gov.scot/news/green-datacentres-and-digital-connectivity-vision-and-action-plan-for-scotland)

⁹ [Cymru – Talebau Gigadid \(culture.gov.uk\)](https://culture.gov.uk/news/cymru-talebau-gigadid)

¹⁰ [Allwedd Band Eang Cymru | LLYW.CYMRU](https://www.llyw.cymru/allwedd-band-eang-cymru)

¹¹ <https://www.bbc.co.uk/news/uk-northern-ireland-56325843>

¹² <https://www.virginmedia.com/corporate/media-centre/press-releases/virgin-media-brings-gigabit-broadband-to-its-entire-northern-ireland-network>

¹³ <https://www.bbc.co.uk/news/uk-northern-ireland-56724991>

¹⁴ Gellir dod o hyd i fanylion ar ddiffiniadau yn atodiad methodoleg cysylltiedig adroddiad Rhagfyr 2019: https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0021/186411/connected-nations-2019-methodology.pdf

gan o leiaf un gweithredwr, ac mae'r ardal ddaearyddol hon yn cynnwys bron yr holl anheddau yn y DU. Mae'r ddarpariaeth yn Yr Alban a Chymru'n sylweddol is. Dylid nodi bod gweithredwyr rhwydweithiau symudol unigol wedi ymrwymo i ymestyn darpariaeth i rhwng 85% ac 88% o Gymru erbyn 2026 o dan y Rhwydwaith Gwledig a Rennir, ac i rhwng 82% ac 85% o'r Alban diolch i fuddsoddi yn y Rhwydwaith Gwledig a Rennir, ac elwa o raglen mewnlenni 4G Llywodraeth Yr Alban.

Mannau di-gyswllt 4G: Mae manau di-gyswllt (hynny yw, ardaloedd lle nad yw gwasanaethau 4G da ar gael gan unrhyw weithredwr) daearyddol ac ar ffyrdd yn parhau ar 9% a 4% yn y drefn honno, er hynny mae'r darlun yn amrywio'n sylweddol yn y cenedloedd unigol, yn enwedig yng Nghymru a'r Alban.

Darpariaeth galwadau a negeseuon testun: Fel gyda 4G, mae'r ddarpariaeth yn parhau heb ei newid i raddau helaeth ar draws y cyfnodau adrodd blaenorol. Mae'r holl weithredwyr yn darparu ar gyfer 80% o fàs tir y DU o ran gwasanaethau galwadau a negeseuon testun ac mae'r ardal ddaearyddol hon yn cynnwys 99% o anheddau yn y DU.

Mannau di-gyswllt galwadau/negeseuon testun: Yn yr un modd nid yw ardaloedd lle na all pobl wneud galwad neu anfon neges destun gan unrhyw weithredwr (mannau di-gyswllt) wedi newid, gyda manau di-gyswllt daearyddol y DU ar tua 5% a manau di-gyswllt ar ffyrdd y DU ar tua 2%. Yn yr un modd â 4G, mae amrywiadau sylweddol ar gyfer cenedloedd unigol; er enghraifft, mae manau di-gyswllt daearyddol ar draws Yr Alban yn parhau'n uwch na gweddill y DU (ar tuag 11% o'i gymharu â 5% ar gyfer y DU yn gyffredinol).

5G: Rydym yng nghyffwrdd cynnar cyflwyno 5G o hyd, felly ni fyddwn yn adrodd ar ddarpariaeth 5G yn y diweddariad hwn. Rydym yn parhau i gydweithio â gweithredwyr y rhwydweithiau symudol i bennu'r ffordd orau o werthuso darpariaeth 5G ac adrodd arni.

Cywain ac adrodd data

Rydym yn parhau i ehangu nifer y gweithredwyr rydym yn cywain data darpariaeth ganddynt er mwyn gwella cywirdeb y data a gyhoeddwn. Rydym hefyd yn parhau i gywain data darpariaeth am sail 4 mis a gwybodaeth am ddefnydd unwaith y flwyddyn. Yn ychwanegol at ein hadrodd rheolaidd, yn yr adroddiad llawn ar ddiwedd y flwyddyn rydym yn bwriadu cyhoeddi gwybodaeth am ddarpariaeth Mynediad Diwifr Sefydlog (FWA) hefyd.

2. Paneli rheoli

Band eang sefydlog

Mynediad i ffeibr llawn	Mai 2020	Medi 2020	Ionawr 2021
DU	14%	18%	21%
Lloegr	13%	16%	19%
Gogledd Iwerddon	49%	56%	63%
Yr Alban	13%	17%	20%
Cymru	15%	19%	21%

Mynediad i wasanaethau cyfradd gigadid	Medi 2020	Ionawr 2021
DU	27%	37%
Lloegr	25%	36%
Gogledd Iwerddon	56%	69%
Yr Alban	42%	44%
Cymru	19%	28%

Mynediad i wasanaethau Gwibgyswilt	Mai 2020	Medi 2020	Ionawr 2021
DU	57%	59%	61%
Lloegr	59%	61%	62%
Gogledd Iwerddon	57%	64%	69%
Yr Alban	50%	52%	54%
Cymru	34%	37%	38%

Mynediad i wasanaethau Cyflym llawn	Mai 2020	Medi 2020	Ionawr 2021
DU	95%	96%	96%
Lloegr	96%	96%	96%
Gogledd Iwerddon	89%	89%	90%
Yr Alban	93%	94%	94%
Cymru	94%	94%	94%

Mynediad i wasanaethau 10 Mdid yr eiliad	Mai 2020	Medi 2020	Ionawr 2021
DU	98%	98%	98%
Lloegr	99%	99%	99%
Gogledd Iwerddon	94%	94%	94%
Yr Alban	97%	97%	97%
Cymru	97%	97%	97%

Nifer y cartrefi a busnesau na allant gyrchu gwasanaeth band eang digonol, hynny yw cyflymder lawrlwytho o 10 Mdid yr eiliad o leiaf a chyflymder uwchlwytho o 1 Mdid yr eiliad o leiaf.

Heb fedru derbyn cyflymder lawrlwytho o 10 Mdid yr eiliad o leiaf a chyflymder uwchlwytho o 1 Mdid yr eiliad o leiaf (o bosib yn gymwys am USO).	Mai 2020	Medi 2020	Ionawr 2021 (Nodyn 5)
DU	2%	2%	2%
Lloegr	1%	1%	1% - 2%
Gogledd Iwerddon	6%	6%	5% - 6%
Yr Alban	3%	3%	3% - 4%
Cymru	3%	3%	3% - 4%

Nodyn 1: Rydym yn ystyried bod gan eiddo "ddarpariaeth ffeibr llawn" dim ond os: 1. yw ffeibr wedi'i osod yn agos iawn i'r eiddo, gan olygu bod angen cysylltiad ffeibr penodedig yn unig i'r eiddo i ddarparu cysylltiedd ffeibr llawn (o un pen i'r llall), a 2. byddai disgwyl i'r defnyddiwr terfynol dalu dim ond tâl cysylltiad cyhoeddedig y cytunwyd arno ymlaen llaw petai un yn cael ei godi.

Nodyn 2: Mae'n bosib bod hyn yn eithrio'r gwasanaethau band eang sydd ar gael gan rai darparwyr llai eu maint.

Nodyn 3: Mae'r ffigurau cymhwysra USO posib ar gyfer pob math o eiddo (preswyl a masnachol). Mae ffigurau ar gyfer cyflymderau eraill yn cyfeirio at eiddo preswyl yn unig.

Nodyn 4: Ers ein hymarfer cywain data diwethaf, rydym wedi mireinio ein methodoleg i gynnwys data ar fflatiau unigol ac is-anneddau eraill o fewn adeiladau mawr pan fydd y data hwn ar gael sy'n cynyddu nifer yr anheddau nad oes gennym ddata gweithredwyr ar ddarpariaeth ar eu cyfer (gweler troednodyn 4).

Nodyn 5: Nid yw'r ystod o ffigurau a ddangosir yn darparu'r amrediad gan gynnwys ac eithrio anheddau y mae data darpariaeth ar gael ar eu cyfer. Ar gyfer y DU a'r Gwledydd unigol, deilliant y newid hwn yn y fethodoleg yw tua 0.2% (ond mae'n bosib y bydd yn ymddangos yn uwch o ganlyniad i dalgrynnu). Mae'n bosib y bydd yr effeithiau hyn hefyd i'w gweld mewn ffigurau ar lefelau mwy gronynnol fel Awdurdodau Lleol neu god post.

Darpariaeth 4G

Safleoedd (awyr agored) sy'n derbyn darpariaeth gan yr holl weithredwyr	Mai 2020	Medi 2020	Ionawr 2021
DU	97%	98%	98%
Lloegr	98%	98%	98%
Gogledd Iwerddon	94%	94%	94%
Yr Alban	96%	96%	96%
Cymru	93%	93%	93%

Ardal ddaearyddol sy'n derbyn darpariaeth gan yr holl weithredwyr	Mai 2020	Medi 2020	Ionawr 2021
DU	67%	69%	69%
Lloegr	82%	84%	84%
Gogledd Iwerddon	77%	79%	79%
Yr Alban	43%	44%	44%
Cymru	58%	60%	60%

Ardal ddaearyddol nad yw'n derbyn darpariaeth gan unrhyw weithredwr	Mai 2020	Medi 2020	Ionawr 2021
DU	9%	9%	9%
Lloegr	3%	3%	3%
Gogledd Iwerddon	3%	3%	3%
Yr Alban	20%	19%	19%
Cymru	10%	10%	10%

Darpariaeth i'r holl ffyrdd gan yr holl weithredwyr	Mai 2020	Medi 2020	Ionawr 2021
DU	57%	59%	59%
Lloegr	64%	66%	66%
Gogledd Iwerddon	46%	48%	48%
Yr Alban	44%	46%	46%
Cymru	46%	49%	49%

Yr holl ffyrdd nad ydynt yn derbyn darpariaeth gan unrhyw weithredwr	Mai 2020	Medi 2020	Ionawr 2021
DU	5%	4%	4%
Lloegr	3%	2%	2%
Gogledd Iwerddon	7%	7%	7%
Yr Alban	9%	8%	8%
Cymru	10%	10%	10%

Nodyn 1: Trothwyon ar gyfer gwasanaethau 4G: 4G (-105 dBm). Mae hyn yn cyfeirio at bron pob cysylltiad a all ddarparu isafswm cyflymder cysylltiad o 2Mdid yr eiliad a galwadau llais dibynadwy.

Darpariaeth galwadau a negeseuon testun

Safleoedd (awyr agored) sy'n derbyn darpariaeth gan yr holl weithredwyr	Mai 2020	Medi 2020	Ionawr 2021
DU	99%	99%	99%
Lloegr	99%	99%	99%
Gogledd Iwerddon	97%	97%	97%
Yr Alban	98%	98%	98%
Cymru	98%	98%	98%

Ardal ddaearyddol sy'n derbyn darpariaeth gan yr holl weithredwyr	Mai 2020	Medi 2020	Ionawr 2021
DU	80%	80%	80%
Lloegr	92%	92%	92%
Gogledd Iwerddon	87%	87%	87%
Yr Alban	59%	59%	59%
Cymru	78%	78%	78%

Ardal ddaearyddol nad yw'n derbyn darpariaeth gan unrhyw weithredwr	Mai 2020	Medi 2020	Ionawr 2021
DU	5%	5%	5%
Lloegr	1%	1%	1%
Gogledd Iwerddon	1%	1%	1%
Yr Alban	12%	11%	11%
Cymru	5%	5%	5%

Darpariaeth i'r holl ffyrdd gan yr holl weithredwyr	Mai 2020	Medi 2020	Ionawr 2021
DU	77%	77%	77%
Lloegr	83%	83%	83%
Gogledd Iwerddon	64%	64%	65%
Yr Alban	63%	63%	63%
Cymru	70%	70%	71%

Yr holl ffyrdd nad ydynt yn derbyn darpariaeth gan unrhyw weithredwr	Mai 2020	Medi 2020	Ionawr 2021
DU	2%	2%	2%
Lloegr	1%	1%	1%
Gogledd Iwerddon	3%	3%	3%
Yr Alban	4%	4%	4%
Cymru	5%	5%	5%

Y trothwyon ar gyfer llais a negeseuon testun yw: 2G (-81 dBm), 3G (-100 dBm), 4G (-105 dBm).